

# Rhagflas ar Hanes Cymru

E. Pritchard

Pan fu farw Llywelyn Fawr yn y flwyddyn 1240, dilynwyd ef yn dywysog Cymru gan Dafydd, mab Siwan.

Claddwyd Siwan (Joan) yn Llanfaes ar Ynys Môn, nepell o fedd mam Llywelyn Fawr, Marared, ac Elinor de Montford, gwraig Llywelyn ap Gruffydd, a mam Gwenllian. Mae beddfaen Siwan yn eglwys Biwmaris heddiw. Claddwyd tad Llywelyn Fawr, Iorwerth ap Owain Gwynedd, ym mynwent Llandudclud, Penmachno. Fe'i gelwid yn Iorwerth Drwyndwn oherwydd nam ar ei drwyn, 'nam corfforol', ac oherwydd hyn fe wrthodwyd iddo y dywysogaeth ac arweiniodd ein cenedl.

roedd Dafydd felly oherwydd ei fod yn fab i Siwan dan ddylanwad Harri'r III, brenin Lloegr.)

Yn y flwyddyn 1244 gwnaeth Gruffydd ymdrech i ddianc o'r Tŵr Gwyn drwy glymu cynfasau ei wely a'u defnyddio fel rhaff i ymostwng ei hun i lawr o'i gell yn y tŵr, ond yn anffodus torrodd y rhaff a disgynnodd yntau i'r ddaear gan dorri ei fwnwgl a bu farw. Fe'i claddwyd yn Llundain, ond yn ddiweddarach cafodd Abad Aberconwy ac Ystrad Fflur ganiatâd Harri III i godi ei gorff a'i ddychwelyd i'w gladdu eilwaith yn Aberconwy gyda'r tywysogion Cymreig eraill.

**Owain ap Gruffydd neu Owain Goch 1217-1282.**

(Am fod ganddo wallt coch)

Ymhen ychydig wythnosau ar ôl hyn, yn 1245, dihangodd Owain o'r Tŵr Gwyn, Llundain. Roedd erbyn hyn yn wyth ar hugain mlwydd oed ac wedi clywed am farwolaeth ei dad, ac yntau ei hun wedi ei gamdrin yn arw. Yn dilyn ymdrech ei dad i ddianc, cafodd Owain ei ddisbaddu; roedd Harri'r III am wneud yn sicr pe byddai Owain yn dianc, na fyddai byth yn gallu cenhedlu. Roedd hon yn weithred farbaraid ac felly mae'n debyg mai dyma'r reswm na phriododd Owain erioed ond, erbyn diwedd y flwyddyn roedd wedi dianc ac yn ôl yng Nghymru.

Ceir ei hanes ar ôl hyn wedi cyrraedd hen gastell henafol Gruffydd ap Cynan, rhywbryd yn niwedd y flwyddyn 1245, ychydig islaw castell Deudraeth heddiw

(Parhad ar dudalen 13)

Merch anghyfreithlon i'r brenin John, Lloegr oedd Siwan, ac yn hanner chwaer i Harri'r III, Brenin Lloegr. Priododd Helen, ei merch, â John yr Albanwr, 'John the Scott', chweched Iarll Caer, a phriododd Dafydd ac Isabell de Breos ond ni fu iddynt blant, ac felly nid oedd dilynwyr i dywysogaeth Dafydd mab Siwan, a thorrwyd cysylltiad â sofraniaeth Lloegr.

Yn ystod ei flwyddyn olaf - 1246 - pan yn wael ei iechyd yn Hafod Garth Celyn, y lle hwn a elwid cyn hyn gan y Brythoniaid yn Tintaiol, a chan y Gwyddelod cynnar tua'r flwyddyn 300, yn Grokeen, roedd Dafydd wedi colli ei wallt ac ewinedd ei ddwy law, ac yma y bu farw. Fe'i claddwyd yn Abaty Aberconwy, nepell o fedd ei dad Llywelyn Fawr neu Llywelyn ap Iorwerth, sydd â'i feddfaen yn Capel Gwydir, Llanrwst heddiw.

Mab hynaf ac anghyfreithlon i Tangwystl a Llywelyn Fawr oedd Gruffydd ap Llywelyn ac oherwydd ei ymddygiad haerllyd tuag at ei dad a'i swyddogion fe wrthodwyd iddo yntau y dywysogaeth Gymreig, ac arweinyddiaeth ein cenedl, er iddo fod yn ŵr dewr, ac yn eilun ei filwyr mewn rhyfel.

Pan ddaeth Dafydd, mab Siwan i'r orsedd yn 1240, ar farwolaeth Llywelyn Fawr, fe ddigiwyd Gruffydd yn arw, fel bu rhaid i Dafydd, oherwydd ei ofnau, garcharu Gruffydd a'i fab hynaf, Owain, oedd bryd hynny yn dair ar hugain mlwydd oed yng nghastell Cricieth, ond blwyddyn yn ddiweddarach fe symudwyd y ddau i'r Tŵr Gwyn, Llundain gan Harri III ar ddyhead Dafydd mab Siwan.

(dyma ddechrau hawlio penderfyniadau y dywysogaeth Gymreig gan Frenin Lloegr,

